| | | |
|---|---|---|
| | **Astudiaeth Achos Camau** | |

**Enw a Math o leoliad:** Meithrinfa Gofal Dydd Sunray

**Ardal Llywodraeth Lleol:** Sir y Fflint

**Enw a swydd y person sy’n cwblhau’r astudiaeth achos yma:** Amy Williams

**Dyddiad Cwblhau:** Tachwedd 2020

**Astudiaeth Achos – Cyrsiau Camau NDNA Cymru**







Yma ym Meithrinfa Gofal Dydd Sunray Cyf. roeddem yn falch iawn o gael y cyfle i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg CAMAU oedd yn cael ei drefnu gan NDNA Cymru. Gwnaeth 21 aelod o staff gymryd rhan yn y cwrs dros gyfnod o 10 wythnos yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019.

Cynhaliwyd y cwrs yn ein lleoliad yn ystod un min nos pob wythnos. Cawsom ddewis pa bryd oed fwyaf hwylus i gynnal y cwrs, a phenderfynwyd mae un min nos yr wythnos fyddai’n fwyaf addas ar gyfer ein staff a’n lleoliad. Gwerthfawrogwyd y cyfle i ddewis yr amser fyddai’n fwyaf hwylus i ni.

Deborah Davison, Cyd-lynydd Iaith Gymraeg yr NDNA wnaeth dynnu ein sylw at y cwrs. Rhoddodd Deborah yr wybodaeth roedd ei angen arnom a’r gefnogaeth angenrheidiol i’n galluogi i dderbyn yr hyfforddiant yma.

Yma yn Meithrinfa Gofal Dydd Sunray Cyf, rydym pob amser wedi ceisio hybu yr Iaith Gymraeg o fewn ein lleoliad, felly roedd y staff yn teimlo yn gynhyrfus iawn am gael y cyfle yma i wella eu gwybodaeth.

Er mwyn cefnogi’r hyfforddiant, cawsom gopiau o weithlyfr Cymraeg CAMAU i’w defnyddio yn ystod pob sesiwn. Roedd y gweithlyfrau yma yn rhoi strwythur i’r sesiynau oedd yn cynorthwyo’r broses o ddysgu. Roedd ein tiwtor yn brofiadol nid yn unig wrth ddysgu Cymraeg, ond hefyd, yn brofiadol mewn technegau dysgu, fu’n fanteisiol i’n staff drwy gydol y cwrs.

Fel lleoliad, rydym yn falch o fod yn gweithio tuag at Cynnig Rhagweithiol Cymru drwy ddilyn cwrs Cymraeg CAMAU . Mae'r ôl-ofal gawsom gan Deborah Davison wedi bod yn amhrisiadwy. Cafodd hyn ei amlygu wrth i ni gwblhau ein SASS ar gyfer AGC, gan i ni allu cadarnhau ein bod yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol.

Yn dilyn y cwrs, rydym wedi parhau i dderbyn cefnogaeth gan Deborah. Mae wedi rhoi hyder i ni a'n galluogi i gyflwyno gweithgareddau Cymraeg dyddiol yn ogystal a system newydd lle mae pob ystafell yn dewis gair Cymraeg yr wythnos ar gyfer eu plant.  Mae Deborah wedi rhoi adnoddau i ni pan roeddym eu hangen yn ogystal â bod ar gael i gyfieithu geiriau pan nad ydym yn sicr ohonynt. Mae wedi ymweld â'n lleoliad ar nifer o achlysuron i siarad gyda staff ac er na fu'n bosibl iddi ymweld â ni lawer yn ystod 2020, mae wedi parhau i roi cefnogaeth i ni drwy e-bost a galwadau ffôn.  Rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

Ar y cyfan, mae cwrs Cymraeg CAMAU wedi cael, ac yn parhau i gael, effaith positif iawn ar ein lleoliad. Rydym yn awr yn gallu cynnwys y Gymraeg ym mhob ardal o fewn ein meithrinfa, ac mae hyder y staff wedi cynyddu yn aruthrol.  Rydym wedi derbyn llawer o adborth positif gan ein rhieni sydd wrth eu boddau bod eu plant yn clywed ac yn defnyddio'r Gymraeg mor rheolaidd o fewn y feithrinfa.

Buasem yn hoffi dweud 'diolch yn fawr iawn' wrth Deborah a phawb sydd wedi ymwneud â threfnu'r cwrs CAMAU ar gyfer lleoliadau yng Nghymru.







www.clybiauplantcymru.org

https://earlyyears.wales/

https://www.meithrin.cymru/

https://www.ndna.org.uk/

www.cwlwm.org.uk

https://www.pacey.org.uk/